GISDA

CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE



CEFNOGI GISDA
PECYN CODI ARIAN

Cymorth a syniadau ar sut i godi arian..

Rhif Elusen Gofrestredig: 1068325

CROESO

DIOLCH I CHI AM DDEWIS GEFNOGI GISDA



AMDANOM NI

Sefydlwyd GISDA ym 1985 er mwyn cynnig lloches a chefnogaeth i bobl ifanc digartref yr ardal. Ers hynny mae GISDA wedi tyfu o nerth i nerth, heddiw mae GISDA yn cefnogi pobl ifanc drwy ddarparu cefnogaeth drwy gymysg o brosiectau sy'n gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu sgiliau a'u galluogi i fyw yn annibynnol, sgiliau cyflogadwyedd ac i ofalu am eu hiechyd meddwl a'u hunan werth. Ein nod yw gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau a busnesau ar led Gwynedd, i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc bregus rhwng 14-25 oed.

Lletya Llais Llesiant Cefnogaeth Cyfleon

Mae dros 500 o bobl ifanc Gwynedd yn derbyn cefnogaeth GISDA mewn blwyddyn.

"Mae Gisda wedi fy helpu i ddod dros betha' nad oeddwn i'n meddwl y byddwn i'n gallu'u gwella trwy fy helpu gyda'm problem tymer ddrwg a chyffuriau. Fy helpu i weld bod yna ffordd arall bob amser, a fy helpu i ailgysylltu â mam gan fod gennym berthynas ofnadwy a nawr dwi ddim, diolch i help GISDA. Nid oeddwn yn ddigartref mwyach a gallwn weld dyfodol gwell."- Person Ifanc

DIOLCH

Rydym yn ddiolchgar iawn eich bod wedi dewis codi arian i GISDA ac mae'n bleser gennym eich croesawu i #TîmGISDA. Mae'r arian a godwch yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc Gwynedd. Beth bynnag fydd y gweithgaredd codi arian yr hoffech ei gynnal, gallwn eich helpu i gael y gorau o'ch profiad. Yn y pecyn codi arian hwn fe welwch bopeth sydd ei angen arnoch i godi arian yn llwyddiannus ac yn hwylus.



Y SIALENS

Mae pobl ifanc bregus Gwynedd yn wynebu heriau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen – diffyg tai, diffyg swyddi, diffyg trafnidiaeth gyhoeddus, diffyg adnoddau – sy'n arwain at lefelau cynyddol o bryder, problemau iechyd meddwl, chamddefnyddio sylweddau a digartrefedd.

MAE POB CEINIOG YN CYFRI



Bydd unrhyw rodd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi a chynorthwyo pobl ifanc sydd mewn angen neu mewn argyfwng, gan ei helpu i ddatblygu'r sgiliau bu angen i fyw yn annibynnol.



HELPWCH NI I GEFNOGI MWY O BOBL IFANC BREGUS YNG NGWYNEDD AR EU TAITH O GEFNOGAETH I GYFLOGAETH A CHAEL YR HYDER A HAWL I FYW'N ANNIBYNNOL YN RHYDD O UNRHYW ANFANTAIS

BLE I DDECHRAU

FFACTORAU I'W HYSTYRIED CYN DECHRAU CYNLLUNIO:

SYNIADAU

Gwnewch restr o ddigwyddiadau cyraeddadwy gan hefyd ystyried:

- Pa fath o ddigwyddiad byddwch yn cynnal?
- Oes thema am fod i'r digwyddiad?

DYDDIADAU

Dewiswch ddyddiad addas ar gyfer eich digwyddiad:

- Ydych chi wedi gwirio gwrthdaro â digwyddiadau neu wyliau eraill?
- A yw eich diwrnod dewisol ar gyfer y digwyddiad yn gyfleus i'ch gwesteion?

LLEOLIAD

Fydd rhaid meddwl am leoliad addas i'r digwyddiad:

- Ydy'r lleoliad yn ddiogel ar gyfer y digwyddiad?
- Ydy'r lleoliad yn ddigon mawr i'ch digwyddiad?

CYLLIDEB

Mae angen gosod targed realistig a gwneud yn siwr bod eich holl gostau yn cael eu cynnwys:

- A fyddwch yn codi tal mynediad a beth fydd y ffi?
- Faint fydd lluniaeth yn costio a bydd modd cael rhoddion gan gwmnïau lleol?

HYRWYDDO

Lledaenu'r gair am eich digwyddiad codi arian:

- Hysbysebwch yn eich ardal leol- Papurau newydd, siopau lleol a chanolfannau hamdden.
- Ewch ar-lein a defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol- Facebook, Instagram, Twitter.

RECRIWTIO

Gweithiwch mewn tîm lle gall pobl ddefnyddio eu sgiliau gwahanol, gan greu digwyddiad gwych:

- Gofyn am help llaw gan deulu, ffrindiau a'r gymdeithas.
- Rhoi swydd benodol i bob un gwirfoddolwr.

SYNIADAU CODI ARIAN



Dechrau Cynllunio

Mae yna gannoedd o weithgareddau codi arian hwyliog y gallwch chi ddewis ohonynt. Cynllunio da yw'r elfen bwysicaf o unrhyw weithgaredd codi arian llwyddiannus, ac mae'r gweithgaredd codi arian mwyaf hwyliog a llwyddiannus yn seiliedig ar eich angerdd chi. Felly, os ydych yn berson sydd yn angerddol am eich cymuned, beth am ddiwrnod hwyl gymunedol? Neu, os ydych yn ffanatig ffitrwydd, beth am gymryd rhan mewn taith greded neu farathon er budd yr elusen?

CYNNAL DIGWYDDIAD EICH HUN

Mae codi arian drwy gynnal digwyddiad cymunedol eich hun yn ffordd wych o ddod i adnabod eich cymdogion. Cyfunwch ddiwrnod codi arian hwyliog yn eich parc lleol, gardd neu neuadd gymunedol, a fydd pawb yn mwynhau!

DIWRNOD CHWARAEON

Mae diwrnod chwaraeon yn lot o hwyl i'ch holl deulu a chymdogion. Gyda gweithgareddau fel ras ferfa, ras sachau a ras wy ar lwy, gall unrhyw un gymryd rhan!

Gallwch logi cae neu ei gynnal mewn gardd gyda digon o le. Gallwch godi hyd yn oed fwy o arian drwy weini diodydd oer ac ychydig o fyrbrydau.





BINGO

Beth am logi'r neuadd leol am brynhawn o fingo?



CWIS

Mae noson cwis o hyd yn weithgaredd poblogaidd gyda'r gymuned.

CERDDORIAETH BYW

Beth am drefnu noson neu ddiwrnod o gerddoriaeth fyw? Gallwch bartner gyda chwmnïau lleol i greu digwyddiad llawn hwyl i'r teulu i gyd.



HERIWCH EICH HUN

CYMERWCH RAN MEWN DIGWYDDIAD YN UNIGOL NEU FEL RHAN O DÎM.



HER RHEDEG

Beth am herio eich hun i redeg 10km, hanner marathon neu farathon? Gallwch godi arian i GISDA drwy gasglu noddwyr wrth wneud hyn.



HER BEICIO

Beth bynnag fo'ch profiad neu allu, mae cannoedd o heriau beicio i ddewis ohono. Beth am feicio 15km neu feicio ar hyd arfordir Cymru?



NOFIO NODDEDIG

Mae cymaint o wahanol ffyrdd y gallech chi greu eich her nofio eich hun, o nofio hyd eich pwll nofio lleol, nofio gwyllt yn y llynnoedd neu hyd yn oed nofio'r sianel!



HER GERDDED

Mae her gerdded yn wych i berson o unrhyw allu. Gallwch gymryd rhan mewn sialens cerdded 10 mil o gamau'r dydd neu hyd yn oed yr her 3 copa.

CODI ARIAN YN DDIGIDOL

Mae hefyd modd codi arian i GISDA yn ddigidol. Mae yn bosib rhoi rodd unigol i GISDA drwy neges destun, drwy yrru'r neges "GISDA3" i 70085 gallwch roddi £3 i'r elusen. Beth am rannu'r neges yma gyda'ch cymuned drwy ddosbarthu posteri i gwmnïau a chlybiau cymunedol lleol?

Am gopi o'r posteri cysylltwch:
gisda@gisda.co.uk



Cost testun (£ eich rhodd) ynghyd ag ynghyd ag un neges gyfradd safonol.

GISDA10

TEXT GISDA5 I 70085 I RHOI £5

TEXT GISDA3 I 70085 I RHOI £3

GISDA20

"GIVE AS YOU LIVE"

Give as you Live® Online

Cyfrannwch i GISDA wrth i chi siopa!
Ydych chi'n siopa ar-lein yn rheolaidd? Pam ddim siopa ar-lein a chodi arian i GISDA yr un pryd? Pob tro y byddwch chi'n siopa trwy'r app "Give as you live", bydd canran o'ch gwariant yn cael ei rhoi i'ch elusen ddewisol.

Sut mae'n gweithio:

Available on the App Store
GET IT ON Google Play
Lawrlwytho App



Cofrestru



Dewiswch elusen i'w chefnogi



Cliciwch Cefnogwch ni



Dechrau siopa

JustGiving™
justgiving.com/gisda

Am unrhyw gyngor gyda'ch gweithgareddau codi arian, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni:
gisda@gisda.co.uk

HYRWYDDO EICH DIGWYDDIAD

Gan eich bod wedi bod yn ddigon anturus i drefnu digwyddiad codi arian- COFIWCH weiddi amdano. Mae hyrwyddo eich digwyddiad yr un mor bwysig â'i gynnal- gadewch i bawb wybod ei fod yn digwydd gan gynnwys ni, rydym wrth ein boddau yn derbyn lluniau a straeon o'r digwyddiadau.

SUT I HYRWYDDO'CH DIGWYDDIAD:

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
Creu tudalen digwyddiad ar eich cyfryngau cymdeithasol.



PAPURAU LLEOL
Rhannwch eich stori gyda'r papurau lleol.



HYSBYSEBWCH YN EICH ARDAL LEOL
Dosbarthwch bosteri o amgylch eich cymuned leol.



RHANNU LLUNIAU
Defnyddiwch #TimGISDA wrth rannu lluniau ar gyfryngau cymdeithasol.



Rydym wrth ein boddau clywed am eich digwyddiadau felly:

COFIWCH YRRU LLUNIAU O'CH DIGWYDDIAD I NI!

SUT I ANFON EICH RHODD I NI?

Ar ôl eich holl waith caled yn cynnal eich digwyddiad, mae ond angen i chi yrru'ch arian i mewn ac ymlacio.



Gallwch ddanfon arian parod i'r swyddfa.



Gallwch yrru yr arian a godwyd i GISDA trwy BACS



Mae bosib danfon siec o'r rhoddion.

Cyn gyrru unrhyw arian a godwyd i GISDA, plîs cysylltwch â GISDA@GISDA.CO.UK am gyfeirnod eich rhodd.

CODI ARIAN YN DDIOGEL

Cyn i chi ddechrau eich taith codi arian, mae'n bwysig i wybod sut i godi arian yn ddiogel. Blaenoriaeth eich digwyddiad yw diogelu eich mynychwyr a gwirfoddolwyr- COFIWCH gymryd gofal wrth gynllunio a chynnal eich digwyddiad a nodi mae eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich digwyddiad yn ddiogel ac yn cydymffurfio ag unrhyw awdurdodau perthnasol.



IECHYD A DIOGELWCH

Mae yn bwysig creu asesiad risg ar gyfer pob digwyddiad: nodwch unrhyw beryglon a gwerthuswch unrhyw risgiau. Cofiwch sicrhau bod gennych becyn cymorth.



CAEL CANIATÂD

Bydd angen i chi dderbyn caniatâd rhieni os yw plant yn helpu yn eich digwyddiad neu os ydych chi'n bwriadu tynnu lluniau o blant ar gyfer hyrwyddo'r digwyddiad. Os yw eich digwyddiad ar eiddo preifat, gofynnwch am ganiatâd y perchennog neu'r rheolwr



GWEINI BWYD

Os ydych chi'n gweini bwyd yn eich digwyddiad byddwch yn ymwybodol o reolau Asiantaeth Safon Bwyd(FSA) ynghylch hylendid bwyd. Gallwch gael fwy o wybodaeth am hyn oddi ar: www.food.gov.uk



GWERTHU ALCOHOL

Os rydych yn bwriadu gwerthu alcohol yn eich digwyddiad, mae yn hynod o bwysig sicrhau bod eich lleoliad gyda thrwydded i wneud hyn neu bydd angen cael trwydded dros dro.



RAFFL

Os ydych yn cynnal raffl fawr ar gyfer codi arian efallai y bydd angen trwydded arnoch, holwch eich cyngor lleol yn gyntaf bob amser.

Am unrhyw gyngor neu am fwy o wybodaeth am reolau gweithgareddau codi arian, cysylltwch â'ch cyngor lleol.

Er ein bod yn hynod o ddiolchgar am eich cefnogaeth. Nid all GISDA cael ei ddal yn gyfrifol am eich digwyddiad nac chwaith dderbyn cyfrifoldeb neu atebolrwydd am unrhyw un iawndal neu anafiadau sy'n deillio o ddigwyddiad neu weithgaredd codi arian.

DIOLCH



Diolch yn fawr iawn i chi am ddewis i gefnogi GISDA. Rydym yn hynod ddiolchgar am eich cefnogaeth. Bydd pob ceiniog a godwyd yn mynd tuag at sicrhau dyfodol gwell a disglair i bobl ifanc Gwynedd.

#TIMGISDA



gisda@gisda.co.uk 01286 671153 www.gisda.co.uk

gisdacyf gisdacyf gisdacyf

GISDA

Cwmni Cyfyngedig dan Warant: 2484575
Rhif Elusen Gofrestredig: 1068325

Cyfeiriad:
GISDA Caernarfon, 22/23 Y Maes, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2NA

01286 671153 gisda@gisda.co.uk www.gisda.org gisdacyf @gisdacyf